Arweiniad gaeaf: help gyda biliau tanwydd a chadw'n gynnes

Cyflwyniad

Mae rhai teuluoedd efo plant anabl yn son wrthym am yr anawsterau sy'n bodoli y tu hwnt i'r cartref a sut ei fod yn teimlo'n haws yn aml i aros i mewn. Mae'n bosib fod gennych blentyn sydd â chyflwr sydd yn dirywio mewn tywydd gwlyb neu oer. Yn y gaeaf, fe allwch fod yn defnyddio mwy o danwydd.

Os ydach ar incwm isel, efallai eich bod yn poeni am gostau biliau tanwydd uwch a chostau cysylltiedig eraill megis dillad gaeaf. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod un o bob saith sydd yn rieni i blant anabl yna dweud bod trefniant gwresogi annigonol yn eu cartref.

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi gwybodaeth am gadw biliau tanwydd yn isel, ffynonellau ariannol ar gyfer talu rhai biliau a rhai awgrymiadau ymarferol ar sut i gadw'n gynnes yn y gaeaf.

Noder: mae'r arweiniad hwn ar gyfer pob rhan o'r DU gan gofnodi unrhyw wahaniaethau yn y cenhedloedd unigol. Rhoddir rhestr o gysylltiadau cenedlaethol ar ddiwedd yr arweiniad hwn ar gyfer rhagor o wybodaeth fanwl.

Cynnwys

Gwirio eich biliau tanwydd
Cael trafferth talu eich biliau tanwydd?
Datgysylltu'r cyflenwad
Problemau efo gwresogi glo ac olew
Cymorth ariannol
Cadw eich biliau tanwydd i lawr
Newid cyflenwyr ynni
Cynlluniau ar gyfer grwpiau anabl, oedrannus a bregus
Llety preifat ar rent
Materion diogelwch
Sefydliadau defnyddiol

Gwirio eich biliau tanwydd

Wrth dderbyn eich bil, dylech ei wirio er mwyn sicrhau ei fod yn gywir cyn mynd ati i'w dalu.

Fel rheol, chi sy'n gyfrifol am dalu'r bil os mai chi ofynnodd am y cyflenwad tanwydd a'ch enw chi sydd ar y bil. Holwch am gyngor arbenigol os nad ydi'ch enw chi ar y bil ond disgwylir ichi ei dalu, neu eich bod yn meddwl eich bod yn gorfod talu am danwydd nad ydach chi wedi ei ddefnyddio. Dylai eich Cyngor ar Bopeth lleol allu eich cynghori ymhellach ar hyn. Os oes gennych fesurydd credyd(gweler yr adran ar "mesuryddion" ar dudalen 6) , byddwch fel rheol yn derbyn bil gan eich cyflenwr pob chwarter. Os ydach chi'n derbyn bil sydd llawer uwch nag arfer a chithau'n methu fforddio ei dau ar unwaith, gofynnwch i'ch cyflenwr gynnig cynllun talu(gweler tudalen 5) i'ch galluogi i dalu'r ddyled gan bwyll bach

Pam ei bod yn bosib bod eich bil yn anghywir

Er mai achosion digon prin yw'r rheini pam fo'r darlleniad mesurydd neu eich bil yn anghywir ynghylch faint o danwydd sydd wedi'i ddefnyddio, mae yna ambell i sefyllfa pan gall eich bil fod yn anghywir. Dyma rai esiamplau:

- **mae'n bosib bod eich bil wedi'i seilio ar amcangyfrif o'r darlleniadau. Edrychwch ar eich mesurydd er mwyn ei gymharu â'r bil ei hun. Os ydyn nhw'n wahanol, darllenwch y mesurydd a danfonwch y darlleniad at eich cyflenwr ar gyfer bil addasedig.**
- **rydach wedi symud t•. Wrth symud i mewn ac allan o eiddo, mae'n bwysig agor a chau cyfrifon yn iawn a darparu darlleniadau Mesurydd, neu fel arall gallech dderbyn bil am ynni a ddefnyddiwyd gan y preswylwyr blaenorol neu'r bobl sydd yn symud i mewn nesaf.**
- **mae prisiau tanwydd wedi cynyddu. Os oes gennych fesurydd credyd, cymrwch ddarlleniad ar ddiwrnod y cynnydd, Os oes gennych fesurydd cyn-taliad, gofalwch ei fod yn cael ei addasu ar gyfer ateb y cynnydd**.

Gall problemau eraill gynnwys y mesurydd anghywir yn cael ei ddarllen, er enghraifft mewn bloc o fflatiau neu fod cofnodion eich cyflenwr yn anghywir.Gall fod eich mesurydd yn wallus er bod hyn yn bur anghyffredin. Holwch am gyngor arbenigol os ydach chi'n teimlo bod eich bil yn anghywir.

Wedi derbyn cais i dalu bil a gyflwynwyd amser maith yn ôl?

Os ydi eich cyflenwr yn gofyn ichi dalu bil a gyflwynwyd amser maith yn ôl,holwch am gyngor cyn cysylltu â'ch cyflenwr. Mae yna gyfyngiadau amser o ran chwilio am ddyledion. Ffoniwch llinell gymorth Cyswllt Teulu am gopi o'n Arweiniad Dyledion.

Bilio Nôl ar gyfer cwsmeriaid credyd a chwsmeriaid mesurydd cyn-daliad

Mae gan rai cyflenwyr ym Mhrydain Gôd Ymarfer cytunedig fel a ganlyn: os mai nhw oedd ar fai am beidio â bilio cwsmer sydd â mesurydd credyd, gwnawn nhw ddim "bilio-nôl" y cwsmeriaid hynny am fwy nag un blwyddyn.

Ffoniwch Energywatch am fwy o fanylion.

Does gan Gogledd Iwerdon ddim cytundeb ar gyfer "bilio-nôl", ond gallwch gysylltu â'r cyflenwr yn uniongyrchol er mwyn cwyno wrthynt. Os credwch y dylech dderbyn elfen o ewyllys da ganddynt dylech ofyn am hyn yn benodol. Cysylltwch â'r Cyngor Cwsmer yng Ngogledd Iwerddon os ydach chi'n parhau i fod yn anfodlon

Cwynion

Os oes problem efo'ch bil a does dim modd ei ddatrys gyda'ch cyflenwr, ffoniwch Energywatch, y corff arolygu nwy a thrydan annibynnol ar gyfer help ar 08459 06 07 08

Os ydach chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, gall Cyngor y Cwsmer ymchwilio i gwynion yn erbyn cyflenwyr nwy naturiol a thrydan sydd heb eu datrys ar: 0845 601 6022.

Gall problemau godi weithiau efo "bilio-nôl" ar fesuryddion cyn-taliad(gweler yr adran ar "Mesuryddion" ar dudalen 6), gan fod oediad wedi digwydd wrth addasu'r mesurydd i ateb cynnydd mewn pris. Os ydach chi yn y sefyllfa hon, cysylltwch ag Energywatch neu Gyngor Cwmser Gogledd Iwerddon,

Cael trafferth talu eich biliau trydan?

Gall cyflenwyr trydan ddarparu ystod o ddulliau ar eich cyfer er mwyn talu eich bil os oes gennych fesurydd credyd, Gall yr opsiynau gynnwys er enghraifft, caniatau ichi dalu gydag arian siec, archeb post, neu daliad debyd uniongyrchol pob mis. Bydd rhai cyflenwyr yn darparu disgownt os ydach chi'n talu mewn un dull penodol.

Os na allwch dalu'r bil yn llawn, efallai yr hoffech feddwl ynghylch:

- defnyddio un o'r cynlluniau talu isod er mwyn gwasgaru'r gost a helpu osgoi syrthio ar ei hôl hi efo'ch taliadau;
- gosod mesurydd cyn-taliad (gweler tudalen 6);
- derbyn cyngor ynghylch cymorth ariannol allai fod ar gael(gweler tudalen 11)

Cynlluniau Talu
Cysylltwch â'ch cyflenwr tanwydd am fanylion ynghylch y cynlluniau talu sydd ar gael. Gofalwch eich bod yn astudio telerau ac amodau'r cynlluniau yn ofalus. Mae'r rhai mwyaf cyffredin yn cynnwys cynlluniau debyd uniongyrchol/archeb sefydlog, a chynlluniau taliadau hyblyg. Nodwch y gall fod gennych falans sy'n ddyledus o hyd ar ddiwedd y flwyddyn dalu.

Debyd uniongyrchol debit/archebion sefydlog
Gyda'r cynlluniau hyn, mae eich cyflenwr yn amcangyfrif eich defnydd blynyddol o danwydd, ac fe fyddwch yn talu'r swm hwn drwy daliadau cyfartal ar hyd y flwyddyn. Os ydach chi'n talu drwy ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog, caiff y taliadau eu gwneud yn awtomatig o'ch cyfrif banc, un ai'n fisol neu'n chwarterol.

Cynllun cyllido taliadau wedi'u gosod
O dan y cynllun hwn, bydd rhaid ichu dalu swm cytunedig i'r cyflenwr ar adeg benodol- fel arfer pob wythnos, pob pythefnos neu pob mis. Gall y dulliau talu gynnwys gwneud taliadau yn uniongyrchol i'ch cyflenwr mewn swyddfa bost, banc neu leoliadau eraill.

Cynlluniau talu hyblyg
Efallai y bydd eich cyflenwr egni yn cynnig cynllun taliadau hyblyg sy'n gadael ichi dalu unrhyw swm ar unrhyw adeg; gall y math hwn o gynllun fod yn addas ar eich cyfer os ydi eich incwm yn pegynnu. Gofalwch eich bod yn edrych ar delerau'r cynllun, er enghraifft beth sy'n digwydd os ydach chi'n mynd ar ei hôl hi efo'ch talaidau.Cysylltwch â'r cyflenwr i weld os ydyn nhw'n cynnig y cynllun hwn.

Mesuryddion
Mae dau brif fath o fesuryddion: credyd neu cyn-daliad. Mesuryddion credyd(neu chwarterol)n ydi'r rhai mwyaf cyffredin- ble fo tanwydd yn cael ei ddefnyddio a biliau'n cael eu danfon amdano wedyn.Mae mesuryddion cyn-taliad yn caniatau ichi dalu rhagblaen am eich cyflenwad tanwydd. Bydd gan y rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio mesurydd cyn-taliad fesurydd cerdyn, tocyn neu oriad.

Manteision ac anfanteision mesuryddion
Mae manteision ac anfanteision ynghlwm wrth pob math o fesurydd. Er enghraifft, gall mesuryddion cyn-taliad gael eu gosod i dalu ôl-ddyledion fel dewis arall rhagor na diffodd y cyflenwad. Fodd bynnag, mae'n bosib bod y taliad gosod yn uwch, a bydd dim tanwydd gennych os na allwch fforddio i ychwanegu at eich taliad.

Hefyd, gall gyflenwyr gynnig cynlluniau gwahanol. Er enghraifft, mae pris tanwydd fel rheol yn uwch os ydach chi'n derbyn eich ynni drwy fesurydd cyn-taliad. Fodd bynnag, bydd cwsmeriaid yng Ngogledd Iwerddon sy'n talu am eu trydan drwy gyfrwng mesurydd talu wrth ddefnyddio yn derbyn digsownt o 2.5%.

Bydd gan eich CAB lleol fwy o wybodaeth am fanteision ac anfanteision mesuryddion.

Talu costau tanwydd o'ch budddaliadau- Tanwydd Uniongyrchol
Os ydach chi'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn, gallech gael trefniant lle bo arian yn cael ei dynnu o'ch budd-daliadau er mwyn talu am ddefnydd o danwydd. Gelwir hyn yn "Tanwydd Uniongyrchol" yn aml.

Bydd y cyflenwr tanwydd yn amcangyfrif eich costau tanwydd wythnosol ac yn ychwanegu swm bychan tuag at eich ôl-ddyled. Bydd y swm wythnosol wedyn yn cael ei dynnu'n uniongyrchol o'ch budd-daliadau a'i dalu i'ch cyflenwr(wyr) tanwydd.

Datgysylltu'r cyflenwad

Gall eich cyflenwad gael ei ddatgysylltu os na fyddwch yn talu eich bil. Gallwch hefyd gael eich datgysylltu o nwy a thrydan os ydach chi'n gadael yr eiddo ond yn cadw'r un cyflenwr tanwydd.

Os oes bygythiad o ddatgysylltiad, holwch am gyngor gan eich CAB lleol neu asiantaeth cyngor lleol cyn gynted ag sy'n bosib. Hefyd holwch eich cyflenwr egni am eu côd ymarfer. Dylai hyn gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer cleientiaid sy'n ei chael hi'n anodd i dalu am eu biliau tanwydd ynghyd â'r camau y dylai'r cyflenwr ynni eu dilyn cyn datgysylltu'r cyflenwad.

Dyledion tanwydd
Ystyrir dyled tanwydd yn ddyled blaenoriaethol oherwydd canlyniadau peidio talu: datgysylltiad.
Os na fedrwch dalu'r bil pan ddaw, peidiwch â'i anwybyddu- holwch am gyngor ynghylch sut i ddelio â'r sefyllfa gan sefydliadau megis CAB, Llinell Ddyled Cenedlaethol neu'r Llinell Gymorth Gwresogi'r cartref.Os oes gennych ddyledion eraill ar wahân i ddyledion tanwydd, holwch am ragor o gyngor ar sut i ddelio â'r rhain hefyd.

Pryd na chaniateir datgysylltu yn sgîl dyled?
Hyd yn oed os ydach chi ar ei hôl hi efo'ch taliadau, chaiff cyflewnwyr ynni ddim eich datgysylltu:
rhwng Hydref 1 a Mawrth 31
ble fo pawb yn y t• ar eu pensiwn;

- rhwng Hydref 1 a Mawrth 31 os oes unigolyn yn y t• yn sâl iawn neu'n anabl;
- os oes arnoch chi arian i gyflenwr blaenorol
- os ydach wedi cael eich gwneud yn fethdalwr, ac fe ddigwyddodd y ddyled cyn dyddiad y gorchymyn methdaliad; **neu**
- os ydi'r ddyled ar danwydd nad ydach chi wedi'i ddefnyddio. Er enghraifft, rydach chi wedi prynu gwresogydd, stôf, oergell, teledu neu beiriant fideo gan eich darparwr tanwydd. Dylid gwahanu'r rhain o'ch cyfrif tanwydd gan na allwch gael eich datgysylltu am syrthio ar ei hôl hi gyda chytundeb credyd.

Datgysylltiadau yng Ngogledd Iwerddon

Mae'r sefyllfa'n wahanol yng Ngogledd Iwerddon. Dylech wastad roi gwybod i'ch cyflenwr am y sefyllfa a gofyn am gopi o amodau eu trwydded safonol a'r Côd Ymarfer.
Gall y Cyngor Cwsmer yng Ngogledd Iwerddon gynnig rhagor o wybodaeth am ddatgysylltiadau.

Mae'r Gymdeithas Gwerthiant Ynni hefyd wedi sefydlu gweithdrefn rhwyd ddiogelwch er mwyn sicrhau nad ydi cwsmeriaid bregus yn eu cael eu datgysylltu.

Cwsmeriaid bregus

Sefydlwyd yr weithdrefn rhwyd ddiogelwch yn 2004 gan y Gymdeithas Gwerthiant Ynni(cymdeithas y prif gyflenwyr nwy a thrydan yn y DU) er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw gwsmer bregus yn y DU ei ddatgysylltu gan eu cyflenwr nwy a/neu thrydan ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Gallwch gael eich ystyried yn gwsmer bregus,os ydi eich lles personol chi neu les aelod arall o'r cartref dan fygythiad oherwydd oed, iechyd, anabledd neu wasgfa ariannol eithriadol.
Cysylltwch â'r Gymdeithas Gwerthiant Ynni am fwy o wybodaeth.

Noder: tydi cyflenwyr yng Ngogledd Iwerddon ddim yn rhan o weithdrefn rhwyd ddiogelwch y Gymdeithas Gwerthiant Ynni .

Cais i dalu nôl ar gyfradd uwch?
Os ydi eich cyflenwr ynni'n mynnu bod ôl-ddyled yn cael ei dalu nôl ar gyfradd sydd ddim yn ystyriol o'ch amgylchiadau, gall fod yn gyfystyr â thorri amodau eu trwydded ac fe ddylech ffonio Energywatch.

Iawndâl
Mae'n bosib fod gan eich cyflenwr ynni safonau gwasanaeth a chynllun i dalu iawndâl os methant â chyrraedd y safonau hyn. Holwch eich cyflenwr am fanylion.
Mae'r dulliau gwahanol o ran talu am danwydd i'w gweld yn yr adran "Trafferth talu eich biliau" ar dudalen 5.

Mae'n rhaid ichi dderbyn rhybudd am ddatgysylltiad

Mae'n rhaid i'r cyflenwr ynni ddanfon bil atoch i roi gwybod ichi faint sy'n ddyledus. Gall cyflenwr trydan ddim danfon rhybudd datgysylltiad tan 28 diwrnod wedi i'r cwsmer dderbyn y bil. Gall cyflenwr nwy ddim ddanfon rhybudd datgysylltiad tan 28 diwrnod wedi dyddiad y bil. Mae'n rhaid i'r cyflenwr ynni roi rhybudd i chi am y datgysylltiadDweud wrth eich cyflenwr am eich amgylchiadau

Fydd eich cyflewnr ynni ddim yn gwybod eich bod yn cael trafferth talu eich biliau onibai eich bod yn dweud hynny wrthynt.Dylent ddanfon nodiadau i'ch annog chi i gysylltu â nhw i drafod opsiynau talu. Cysylltwch â nhw gan adael iddynt wybod am eich amgylchiadau a'ch bod yn gofalu am blentyn anabl.

Bydd rhaid cynnig dewisiadau talu i chi

Bydd rhaid i'r cyflenwr ynni gynnig nifer o ddewisiadau i chi o ran talu'r ôl-ddyled. Dylai hyn gynnwys taliadau talu rheolaidd a thanwydd uniongyrchol(Fuel direct). Os na fedrwch dalu'r ôl-ddyled fel hyn, dylent gynnig gosod mesurydd cyn-taliad(cyn belled â'i bod yn ddiogel ac ymarferol i osod un yn eich cartref)

Yng Ngogledd Iwerddon, gall Trydan Gogledd Iwerddon(NIE) osod mesurydd cyn-taliad allweddbad fel ddewis arall yn hytrach na datgysylltiad. Os oes angen, gallent gael gorchymyn llys i gael mynediad i'ch cartref a gosod y mesurydd yno trwy orfodaeth

Y cyflenwr yn ymgeisio at y Llys Ynadon

Os yw'r datgysylltiad i'w roi ar waith, bydd rhaid i'ch cwmni cyflenwad ynni ymgeisio i'r Llys Ynadon am warant i gael mynediad i'ch cartref. Dylent roi gwybod ichi ymlaen llaw eu bod nhw'n ceisio am warant fel hyn. Dylech hefyd gael gwybod am ddyddiad ac amser yr achos yn y Llys Ynadon.

Mae gennych hawl i fynd i'r gwrandawiad ac i ddweud eich dweud pam na ddylai'r datgysylltu ddigwydd. Bydd yr ynadon yn ystyried yr holl dystiolaeth cyn penderfynu caniatau warant ai peidio.

Warant ar gyfer cael mynediad a datgysylltu

Os ydi warrant wedi'i ganiatau, dylai eich cyflenwr ynni ddanfon llythr atoch yn rhoi gwybod ichi ynghylch y dyddiad y byddant yn ymweld â'ch cartref er mwyn datgysylltu eich mesurydd. Wedi datgysylliad, bydd cynrychiolydd ar ran y cyflenwr yn gadael manylion ynghylch yr hyn sydd wedi'i wneud, ynghyd â rhif ar gyfer cysylltu'r cyflenwad eto a'r costau sydd ynghlwm â hynny.

Dylent hefyd adael manylion o'r swm sy'n ddyledus. Gall hyn gynnwys yr ôl-ddyled, ffi datgysylltu, ffi cysylltu, costau gweinyddol ac o bosib blaen-dâl diogelwch.

Dylid nodi ei fod yn drosedd ac yn weithred ddifrifol iawn i geisio datgysylltu eich cyflenwad nwy a thrydan eich hun. Ffoniwch Energywathc am ragor o wybodaeth am ddatgysylltu.

Problemau efo gwresogi glo ac olew

Defnyddir glo yn helaeth mewn rhai mannau o'r DU o hyd ac mae'r mwyafrif o drigolion Gogledd Iwerddon yn defnyddio olew ar gyfer gwresogi. Mae problemau posib efo glo yn cynnwys y pris sy'n cael ei godi, y pwysau a gyflenwir a phryderon am ddiogelwch.

Ar gyfer problemau efo glo:

- **ynghylch y pwysau neu'r disgrifiadau masnachol**. Ffoniwch eich Gwasanaeth Safonau Masnach lleol. Yng Ngogledd Iwerddon : 028 9025 3900;
- **ynghylch ansawdd y cynnyrch neu'r gwasanaeth. Ffoniwch y cyflenwr tanwydd er mwyn rhoi cyfle iddynt unioni pethau. Gofynnwch iddynt ydyn nhw'n aelodau o'r cynllun Masnachwyr Glo Wedi'u Cymeradwyo ar :** 0845 601 4406, gan y gallent gynnig cyngor a cymodi rhwng y cwsmer a'r masnachydd. Yng Ngogledd Iwerddon, gall Y Gwasanaeth Cynghori Glo gymodi rhwng cwsmeriaid a chyflenwr ar : 028 9075 1002
- **pryderon am ddiogelwch a chyngor cyffredinol. Ffoniwch y Gymdeithas Tanwydd ar**: 0845 6014406. Yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Diogelwch Cwsmer yn eich cyngor lleol os ydach chi o'r farn bod y glo yn beryglus.

O ran problemau efo gwresogi olew

Mae mwyafrif cartrefi Gogledd Iwerddon yn defnyddio olew ar gyfer gwresogi. Mae Cyngor Cwsmeriaid yng Ngogledd Iwerddon wedi cynhyrchu taflen gyda gwybodaeth a chyngor ar ddiogelwch, tanciau a bolieri, effeithiolrwydd ynni, prisiau, edrych ar eich cyflenwad olew a gofalu am eich system wresogi olew.

Cysylltwch â'r Cyngor Cwsmeriaid yng Ngogledd Iwerddon am gopi neu gallwch ei lawrlwytho o'r cyngor a Gwefan: http://tinyurl.com/3aktlb

Gall llinell gymorth Cyswllt Teulu hefyd roi gwybod am ffynonellau cyngor eraill o ran problemau efo gwresogi olew.

Cyngor am arbed egni
Mae gan rai cyflenwyr ynni a chwmnïau d•r ymddiriedolaethau a chyngor ynghylch arbed ynni. Mae gan y rhan fwyaf o gyflenwyr ynni ystod o gynigion fydd yn lleihau'r gost o osod mesurau arbed ynni effeithiol megis insiwleiddio waliau mewnol ar gyfer pobl sydd ar fudd-daliadau perthnasol.Mae'n bosib y byddwch yn gallu manteisio ar gynigion gan gyflenwyr ynni, waeth bynnag pwy ydi eich cyflenwr nwy a thrydan.

Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni neu'r Ymddiriediolaeth Arbedion Ynni ar: 0800 512 012 ar gyfer manylion o unrhyw grantiau neu gymorth ymarferol y gallent ei ddarparu ar gyfer gwella effeithiolondeb ynni eich cartref. Mae ganddynt wybodaeth hefyd am Ganolfannau Cyngor Effeithlondeb Ynni ble y gallwch dderbyn cyngor a gwybodaeth leol. Gall y llinell gymorth Gwresogi Cartref ar: 0800 33 66 99 hefyd gynnig cyngor all helpu eu cwsmeriaid gydag unrhyw ôl-ddyledion nwy, trydan a dwr a biliau tai hanfodol eraill. Ffoniwch y llinell gymorth i weld os oes gan eich cyflewnr ynni a/ neu gwmni d•r cynllun allai helpu

Cymorth Ariannol

Mae mathau gwahanol o gymorth ar gael ar gyfer costau cynhesu eich cartref. Mae peth o'r help ar gyfer talu biliau tanwydd neu ddyledion tanwydd- ond dylech wastad geisio cyngor arbenigol gan eich CAB lleol neu sefydliad tebyg os na allwch dalu eich bil tanwydd. Mae mathau eraill o gymorth hefyd ar gael fydd gobeithio yn lleihau eich biliau tanwydd yn y tymor hir.

Grantiau Elusennol
Mae nifer o elusennau rhoi grantiau all ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i deuluoedd sy'n gofalu am blenty anabl, er enghraifft y Gronfa Deuluol. Mae rhai o'r elusennau yn darparu grantiau penodol ar gyfer costau tanwydd neu ddyledion tra fo eraill yn darparu grantiau cyffredinol ar gyfer ystod o gostau. Ffoniwch ein llinell gymorth am restr o sefydliadau rhoi grant.

Cyflenwyr Cyflogi
Gall rhai cyflenwyr ynni hefyd gynnig cynlluniau neu dariffau ar gyfer cwsmeriaid bregus megis yr ad-daliad gaeaf a weithredwyd gan Nwy Prydain y llynedd(2006/07). Cysylltwch â'ch cyflenwr ar gyfer manylion am gynlluniau a tariffau, gan roi'r manylion llawn am eich amgylchiadau.

Taliadau o'r Gronfa Gymdeithasol
Cronfa gan y llywodraeth ydi'r gronfa hon sy'n cynnig gwahanol fathau o daliadau wedi'u dylunio i helpu pobl ar incwm isel gyda chostau penodol. Dyma rai o'r taliadau sydd ar gael all helpu gyda chostau gwresogi:
Taliadau Tywydd Oer - taliadau awtomatig (does dim rhaid hawlio amdanynt) os ydi'r tymheredd ar gyfartaledd sydd wedi'i gofnodi neu wedi'i ragfynegi dros saith diwrnod dilynol yn eich ardal leol yn sero gradd selsiws(rhewi) neu'n is. Er mwyn derbyn y taliad tywydd oer mae'n rhaid eich bod hefyd yn derbyn:

- Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Chwilio am Waith am o leiaf un o'r diwrnodau hynny ac yn gyfrifol am blentyn o dan pum mlwydd oed neu:
- Credyd Treth Plentyn sy'n cynnwys elfen plant anabl neu blant sâl iawn; neu
- Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Chwilio am Waith sy'n cynnwys premiwm anabl neu pensiwn; neu
- Credyd pensiwn am o leiaf un o'r dyddiau hynny a ddim yn breswylydd mewn cartref gofal.

Mae **Taliadau Tanwydd Gaeaf** yn cynnig un taliad os ydach chi'n 60 neu'n h•n er mwyn helpu gyda chostau gwresogi ychwangol yn ystod y gaeaf. Ffoniwch y llinell gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf ar: 08459 151 515 am ragor o wybodaeth

Mae Grant Gofal Cymunedol yn grant ar ddisgresiwn a ellid ei ddefnyddio i brynu eitemau neu wasanaethau all helpu unigolion neu deuluoedd mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft er mwyn ysgafnhau pwysau eithriadol ar eich teulu. Mae esiamplau yn cynnwys gosod mesurydd cyn-daliad, poptai a dodrefn. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch ein llinell gymorth.

Cymorth gan wasanaethau cymdeithasol

Os ydach chi'n cael trafferthion efo eich cyflenwad tanwydd neu wrth dalu eich biliau tanwydd, gall gwasanaethau cymdeitasol(adran gwaith cymdeithasool os ydach hi'n byw yn yr Alban, neu'r ymddiriedolaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) eich helpu. Mewn rhai sefyllfaoedd, gall gwasanaethau cymdeithasol ddarparu'r cymorth ariannol angenrheidiol i helpu plant o dan y Ddeddf Plant 1989. Gallai hyn fod yn daliad arian, yn fenthyciad neu yn daliad cyfwerth.

Er mwyn derbyn cymorth ariannol, mae'n rhaid bod eich plentyn yn cael ei ystyried fel plentyn " mewn angen", ac mae'n rhaid fod y rheswm dros ofyn am gymorth yn berthnasol i anghenion eich plentyn.

Am fwy o wybodaeth am wasanaethau cymdeithasol, ffoniwch llinell gymorth Cyswllt Teulu.

Cynllun Warm Front (Lloegr)

Dyma grant o hyd at £2,700(neu £4,000 os argymhellir gwresogi canolog olew) ar gyfer gwelliannau insiwleiddio a gwresogi. Mae'n rhaid eich bod yn berchen ar eich cartref eich hun neu'n rhentu gan landlord preifat i fod yn gymwys ar gyfer grant.

Hefyd, mae'n rhaid i'r sawl sy'n byw yn y t•;

- fod dros 60 ac yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Budd-dâl Treth Cyngor, Budd-dâl Tai, Lwfans Chwilio am waith seilieidg ar incwm neu gredyd pensiwn; **neu**
- fod ganddynt blentyn o dan 16(neu'n feichioh efo tystysgrif mamokaeth MAT-B1) ac yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Budd-dâl Treth Cyngor, Budd-dâl Tai, Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn;

Neu bydd rhaid i'r sawl sydd yn y t• dderbyn un o'r canlynol:

- Treth Credyd Gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd(gydag incwm sy'n llai na £15,460)
- Lwfans Byw I'r Anabl ;
- Treth Credyd Plant (gydag incwm sy'n llai na £15,460);
- Premiwm Anabledd gyda Chymorthdal Incwm, Budd-dâl Tai, neu Fudd-dâl Treth Credyd;
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
- (gyda lwfans presenoldeb parhaus);
- Pensiwn Anabledd Rhyfel(gyda lwfans symudedd neu lwfans presenoldeb parhaus) ; **neu**
- Lwfans Presenoldeb.

Os ydach chi'n gymwys ar gyfer y cynllun, bydd asesydd yn ymweld â chi yn eich cartref er mwyn asesu pa welliannau sydd eu hangen arnoch. Gall hyn gynnwys insiwleiddio ar gyfer yr atig Insiwleiddio rhag drafftiau, a lagio tanciau d•r poeth.

Cysylltwch a'r Cynllun Warm Front am fwy o wybodaeth ar 0800 316 2805

Cynllun Ad-daliad Gwresogi(Lloegr)

Os ydach chi dros 60, yn berchen ar eich cartref eich hun, a ddim yn derbyn unrhyw un o fanteision Warm Front, mae'n bosib y gallech fod yn gymwys i dderbyn £300 tuag at drwsio neu osod system wresogi.Gall yr arian ar gyfer hyn fod yn gyfyngedig a chewch chi ddim dyddio'r hawliad yn ôl. Ffoniwch llinell gymorth Warm Front am fwy o wybodaeth.

Cartrefi Cynnes(Gogledd Iwerddon)

Mae'r grant Cartrefi Cynnes yn cynnig effeithiolrwtdd ynni a mesuray gwresogi hyd at £850. Er mwyn bod yn gymwys arv gyfer grant, mae'n rhauid eich bod yn berchen ar eich cartref eich hun neu'n rhentu gan landlord preifat. Bydd rhaid ateb yr amodau canlynol hefyd:

- bod yn riant I blentyn o dan 16(neu bod yn feichiog a derbyn y tystysgrif mamolaeth MAT-B1) a derbyn un o'r budd-daliadau dilynol, Budd-dâl Tai, Ad-daliad treth, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm, neu Gredyd Treth Plant gyda thystystgrif Eithrio Rhag Treth GIC(gall hyn fod yn berthnasol ar gyfer plant sy'n 16 ac mewn addysg amser llawn; **neu**
- fod o dan 60 ac yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau dilynol : Lwfans Byw I'r Anabl Budd-dâl Tai (efo premiwm anabledd), Ad-daliad Treth (efo premiwm anabledd), Cymhorthdal Incwm (efo premiwm anabledd) ,Credyd Treth Gwaith (efo premiwm anabledd), Tystysgif GIC Eithrio rhag Treth, Pensiwn Anabledd Rhyfel(efo lwfans symudedd neu lwfans presenoldeb parhaus), neu Budd-dâl Anabledd Anafiadau Diwydiannol(efo lwfans presenoldeb parhaus); **neu**
- bod yr unigolyn yn 60 neu'n h•n ac yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol: Ad-daliad Treth, Budd-dâl Tai, Credyd Pensiwn Pension, Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm, Lwfans Byw i'r Anabl, Credyd Treth Gwaith (efo premiwm anabledd), Tystysgrif GIC Eithrio rhag Treth, Budd-dâl Anabledd Anafiadau Diwydiannol(efo lwfans presenoldeb parhaus) neu Pensiwn Anabledd Rhyfel(efo lwfans symudedd neu lwfans presenoldeb parhaus).

Os ydach chi'n 60 neu'n h•n ac yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol, efallai y gallwch fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Carrtref Cynnes a Mwy ar gyfer mesurau gwresogi.
Os ydach chi'n gymwys ar gyfer y cynllun, bydd asesydd yn ymweld â'ch cartref i asesu pa fesurau gwresogi ac effeithlondeb ynni sydd eu hangen. Gall hyn gynnwys waliau mewnol:

Rhaglen Gwres Canolog (Yr Alban)

Mae'r Rhaglen Gwres Canolog ar gael ar gyfer pob cartref sy'n brin o wres canolog a ble fo'r sawl sy'n byw yn y cartref neu eu partner yn 60 neu'n h•n. Mae'r rhaglen yn cynnig gwres canolog, insiwleiddio a chyngor.
Ar gyfer bod yn gymwys ar gyfer y rhaglen, mae'n rhaid eich bod yn berchen ar eich cartref neu'n ei rentu'n breifat ac yn

- 60 neu'n h•n heb wres canolog; **neu**
- rhwng 60 a 79 ac yn derbyn yr elfen warantedig o Gredyd Pensiwn; **neu'n**
- 80 a throsodd efo gwres canolog rhannol neu aneffeithiol yn eich cartref.
- Ar gyfer rhagor o wybodaeth am y rhaglen a'r meni prawf cymwysedd
- Ffoniwch y Rhaglen Gwres Canolog ar: 0800 316 1653.

Cynllun Cynnes (Yr Alban)

Mae'r Cynllun Cynnes yn cynnig grant o hyd at £500 er mwyn insiwleiddio eich cartref. Mae'r pecyn yn cynnwys insiwleiddio waliau mewnol, insiwleiddio'r loft, insiwleiddio tanc d•r poeth dwr oer a'r peipiau, atal drafftiau a chyngor ar effeithlondeb ynni. I fod yn gymwys ar gyfer grant, mae'n rhaid eich bod yn berchen ar eich t• eich hun neu'n rhentu gan landlord preifat. Bydd rhaid i'r sawl sy'n byw yn y t• hefyd dderbyn un o'r budd-daliadau canlynol:

- Credyd Penssiwn;
- Lwfans Chwilio am Waith yn seiliedig ar incwm;

- Budd-dâl Tai neu Lwfans Tai ;
- Cymhorthdal Incwm;
- Budd-dâl Treth Cyngor;

- Lwfans Presenoldeb;
- Lwfans Byw I'r Anabl;
- Budd-dâl Anabledd Anafiadau Diwydiannol (gyda lwfans presenoldeb parhaus);
- Pensiwn Anabledd Rhyfel(gyda lwfans presenoldeb parhaus neu lwfans symudedd);
- Credyd Treth Gwaith (gydag incwm perthnasol sy'n is na £16,017);
- Credyd Treth Plentyn(gydag incwm perthnasol sy'n is na £16,017); **neu**
- fod a phlentyn anabl (o dan 16) sy'm derbyn Lwfans Byw i'r Anabl)

Os ydach chi dros 60, yn perchnogi eich cartref eich hun, neu'n rhentu yn breifat, a ddim yn derbyn un o'r budd-daliadau uchod, gallwch ddal fod yn gymwys i dderbyn grant o hyd at £125.

Cysylltwch â'r Cynllun Cytundeb Cynnes am fwy o wybodaeth ar: 0800 316 6009.

Effeithlondeb Ynni Cartref (Cymru)
Mae dau lefel grant ar gyfer insiwleiddio a gwelliannau gwresogi:
Effeithlondeb Ynni Cartref (HEES) a
Grant HEES a Mwy. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer grant, mae'n rhaid eich bod yn berchen ar eich cartref eich hun neu'n rhentu gan landlord preifat. Mae'n rhaid eich bod hefyd yn derbyn budd-dalidau ar gyfer eich cymwyso ar gyfer y rhain.

Mae HEES yn grant o hyd at £2,000 ar
gyfer merched sy'n feichiog(ac yn berchen ar dystysgrif mamolaeth MAT=B1) neu deuluoedd gyda phlant sydd o dan 16. Mae'n rhaid eich bod yn derbyn un o'r budd-daliadau hyn:

- Cymhorthdal Incwm;
- Credyd Treth Gwaith (gydag incwm sydd yn is na £15,460);
- Budd-dâl Treth Cyngor;
- Credyd Treth Plentyn (gydag incwm sydd yn is na £15,460);
- Budd-dâl Tai; neu
- Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm;

Rydach chi'n gymwys ar gyfer grant HEES a Mwy o hyd at £3,000 os ydach chi'n 80 neu'n h•n neu:

- rydach chi'n 60 neu'n h•n ac yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol: Cymhorthdal Incwm, Budd-dâl Treth Cyngor, Budd-dâl Tai, Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm neu Credyd Pensiwn ; neu
- rydach chi'n riant sengl gyda phlentyn sy'n iau na 16 ac yn derbyn unrhyw un o'r budd-dalidadau canlynol:
- Cymhorthdal Incwm, Budd-dâl Treth Cyngor,
- Budd-dâl Tai, Lwfans Chwilio am Waith seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn;
- rydach chi'n anabl neu'n sâl iawn ac yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol : Cymhorthdal Incwm(gan gynnwys y premiwm anabledd), Credyd Treth Gwaith(gyda phremiwm anabledd), Lwfans Byw I'r Anabl, Budd-dâl Tai(gan gynnwys premiwm anabledd), Budd-dâl Treth Cyngor(gan gynnwys y premiwm anabledd), Budd-dâl Treth Cyngor(gyda phremiwm anabledd) Pensiwn Anabledd Rhyfel) gan gynnwys y lwfans symudedd neu'r lwfans presenoldeb parhaus), Budd-dâl Anabledd Anafiadau Diwydiannol(gan gynnwys Lwfans presenoldeb parhaus) neu Lwfans Presenoldeb.
- rydach chi'n hawlio Budd-dâl Tai ar gyfer plentyn o dan 16 sy'n derbyn Lwfans Byw I'r Anabl.

Mae gwelliannau gwahanol ar gael gan ddibynnu ar y math o grant yr ydach chi'n gymwys ar ei gyfer a natur eich eiddo. Mae'r rhain yn cynnwys insiwleiddio'r loft, insiwleiddio waliau mewnol, gofalu rhag drafftiau a thrwsio eich system gwresogi. Os oes gennych system wresogi canolog olew, mae'n bosib y

gallwch dderbyn grant o hyd at £5,000. Bydd asesydd yn ymweld â chi yn eich cartref er mwyn asesu pa fath o welliannnau sydd eu hangen arnoch.

Ffoniowch y Cynllun Effeithlondeb Ynni Cartref am fwy o wybodaeth: 0800 316 2815.

Help gan eich awdurod lleol
Mae gan awdurdodau lleol bwerau i ddaparu cymorth i grwpiau bregus gydag atgyweiriadau a gwelliannau i'r cartref. Gall hyn gynnwys grantiau a chynlluniau gwella effeithlondeb ynni. Mae yna amodau ynghlwm a bydd rhaid i bob awdurdod leol lunio polisi yn disgrifio'r cymorth sy'n cael ei ddarparu. Gall hyn amrwyio gan ddibynnu ar ba wlad yr ydach yn byw ynddi.

Cysylltwch ag adran dai eich awdurod lleol am ragor o wybodaeth a ffoniwch ein llinellgymorth am gopi o'r arweiniad:' Cymhorthion, offer ac addasiadau'.

Os mai tenant gydag awdurdod lleol ydach chi ac yn pryderu am effeithlondeb ynni eich cartref- ewch ar ofyn eich cyngor lleol. Os ydach chi'n rhentu gan gymdeithas tai, ewch ar ofyn eich cyngor lleol a'ch landlord.

Lleihau eich biliau tanwydd

Gallwch leihau eich biliau a pharhau i gadw eich cartref yr un mor gynnes neu'n gynhesach. Isod, mae rhai esiamplau ynghylch sut i leihau eich biliau a defnyddio ynni yn fwy effeithiol.
Awgrymiadau sy'n costio dim ac yn arbed arian ar eich biliau:

- ceisiwch beidio â gwastraffu gwres drwy gadw ffenestri yn agored pan fo'r gwres ymlaen;
- rhowch eich thermostat d•r poeth ar
- 60ºC. Mae hyn yn hen ddigon poeth ar gyfer y rhan fwyaf o bobl yn cymryd bath neu gawod.
- os medrwch, cymrwch gawod yn hytrach na bath- byddwch yn defnyddio llai o dd•r poeth;
- tynnwch yr holl lenni ynghyd gyda'r nos er mwyn rhwystro gwres rhag dianc;
- cadwch ddrysau mewnol ar gau i leihau drafftiau;
- gofalwch eich bod yn diffodd goleuadau a theclynnau sydd ddim yn cael eu defnyddio;
- mae angen dad-rewi eich rhewgell yn gyson er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol;
- peidiwch â gadael eich teledu a fideo ar "standby" gan fod hyn yn defnyddio trydan. Diffoddwch y rhain yn llwyr.

Dulliau eraill
Bydd rhywfaint o gost cychwynnol ynghlwm wrth y dulliau hyn. Mae'n bosib y gallwch dderbyn peth help gyda chostau- gwelwch yr adran ar gymorth ariannol a ffoniwch eich Canolfan Gynghori Ymddiredolaeth Arbed Ynni.

Insiwleiddio eich cartref
Gallwch yn aml leihau'r tanwydd yr ydach yn ei ddefnyddio ar gyfer gwresogi drwy insiwleiddio eich cartref. Gall llawer o wres ddiflannu trwy ddrysau, ffenestri, waliau a'r tô mewn t•. Bydd insiwleiddio da yn cadw'r gwres yn eich cartref.

Os oes gennych loft, un o'r dulliau mwyaf effeithiol ar gyfer arbed ynni yn eich cartref yw insiwleiddio'r loft. Mae'n bosib bod peth insiwleiddio yn eich cartref yn barod, ond nad ydi'n ddigon dyfn. Y lefel a argymhellir ar gyfet insiwleiddio loft yw 270mm. Mae insiwleiddo eich waliau hefyd yn gallu bod yn ddull effeithiol iawn er mwyn arbed ynni yn y cartref.

Gallwch hefyd arbed ynni drwy insiwleiddio eich peipiau d•r poeth a sicrhau bod eich silindr dwr poeth wedi'i insiwleiddio'n dda. Gweler yr adran ar gymorth ariannol er mwyn sefydlu oes modd cael grant neu gymorth arall ar gyfer insiwleiddio'r cartref.

Ffenestri dwbl
Mae ffenestri dwbl yn rhwystro gwres rhag dianc and yn gallu lleihau gwlypter ar eich ffenestri. Mae llawer o wres yn gallu dianc drwy ffenestri felly gall ffenestri dwbl fod yn ddull effeithiol o wneud arbediadau ar eich biliau tanwydd. Edrychwch i weld oes modd derbyn unrhyw help tuag at y gost- gweler yr adran am gymorth ariannol

Atal Drafftiau
Os oes unrhyw awyr oer yn dod i mewn i'ch cartref, yna mae awyr cynnes yn dianc. Mae atal drafftiau yn eich cartref yn gallu arbed ynni a lleihau eich biliau. Edrychwch i weld oes modd derbyn unrhyw gymorth tuag at y gost- gweler yr adran ar gymorth ariannol.

Boileri
Os ydi eich boiler dros 15 mlwydd oed, efallai ei bod hi'n bryd ichi osod un ynni effeithlon yn ei le. Boileri effeithlon uchel yw'r rhai gorau o ran effeithloneb ynni ac fe allent eich helpu I arbed tua un rhan o dair ar eich biliau gwresogi. Mae boileri newydd yn ddrud.

Edrychwch i weld oes modd derbyn unrhyw gymorth tuag at y gost- gweler yr adran am gymorth ariannol.

Gosod mesuryddion gwresogi
Os oes gennych wres canolog, efalli yr hoffech roi mesuruddion gwresogi ar waith. Gall hyn arbed ynni a lleihau biliau:

- gallai swits amser eich galluogi i osod y gwres a d•r poeth i ddod ymlaen ar yr adegau hynny sydd orau ichi;
- gall thermostat ddiffodd y gwres yn awtomatig wedi cyrraedd tymheredd penodol
- gall thermostat unigol ar wresogyddion olygu y gallwch reoli gwres pob ystafell yn unigol

Edrychwch i weld oes modd derbyn unrhyw help tuag at y gost- gweler yr adran ar gymorth ariannol.

Rhagor o gyngor am egni
Gallwch dderbyn rhagor o gyngor am ddim am wneud eich cartref yn fwy effeithlon o ran ynni gan eich Canolfan Gynghori Ymddireolaeth Arbed Ynni lleol.
Gall Yr Ymddireolaeth Arbed Ynni (EST) hefyd eich cynghori am grantiau neu gynlluniau yn eich ardal. Gallwch ffonio EST ar :0800 512 012.

Prynu Eitemau Trydanol
Edrychwch am y logo sy'n dynodi Arbed Ynni wrth brynu teclynnau trydanol newydd. Mae'r logo'n ymddangos ar nifet o gynhyrchion, er enghraifft bylbiau trydanol a theclynnau golchi. Mae'r logo'n dynodi'r teclynnau sydd fwyaf ynni effeithlon ac all arbed arian. Yn y gaeaf, byddwch yn defnyddio mwy ar eich golau, felly efallai yr hoffech ddefnyddio bylbiau golau arbed ynni all arwain at leihad yn eich bil trydan blynyddol.

Newid cyflenwyr ynni

Cael y fargen orau o ran tanwydd

Mae'n bosib arbed arian ar eich biliau tanwydd wrth newid i gyflenwr arall. Os ydach chi am newid eich cyflenwr ynni, ffoniwch Energywatch ar: 08459 06 07 08 i weld pa gwmnïau sy'n cynnig gwasanaeth yn eich ardal chi.

Os oes gennych fynediad at y we, mae sawl gwefan cymharu prisiau y gallwch eu defnyddio er mwyn cymharu tariffiau a phecynnau gwahanol sydd ar gael gan gyflenwyr ynni,. Mae gan Energywatch restr o safloedd achrededig ac mae ganddyn nhw hefyd wasanaeth cymharu prisiau ar eu gwefan.

Cyn newid eich cyflenwr mae yna nifer o elfennau y dylech eu hystyried:

- a fydd cosb am ganslo eich contract presenol;
- pris pob uned o nwy a /neu trydan (gan gynnwys TAW);
- sut y gall yr opsiynau talu gwahanol effeithio ar y pris;
- oes taliad sefydlog yn berthnasol(sef swm penodol y mae cwsmer yn ei dalu am bob diwrnod y maen nhw wedi eu cysylltu i'r rhwydwaith nwy a/neu trydan)

Os ydach chi'n dewis symud at gyflenwr newydd
Gellid terfynu'r rhan fwyaf o gontractau nwy a thrydan gyda rhybudd o 28 diwrnod a bydd rhaid ichi dalu unrhyw filiau sy'n weddill i'r cyflenwr gwreiddiol. Fel rheol, fe gymer chwe wythnos i drosglwyddo at gyflenwr newydd.

Os ydach chi'n symud at gytundeb tanwydd dwbl, bydd angen i chi sicrhau bod y nwy a'r trdyan yn trosglwyddo ar yr un diwrnod. Mae'n syniad da i gymryd darlleniad o'r mesuryddion ar y diwrnod yr ydach yn newid eich cyflenwr.

Os ydach chi'n newid cyflenwr ac yna'n newid eich meddwl, gallwch roi 28 diwrnod o rybudd a dychwelyd at eich cyflenwr gwreiddiol. Os ydach chi wedi newid cyflenwr heb fwriadu gwneud hynny, mae'n bosib y gallech newid yn ôl. Ffoniwch Energywatch am fwy o wybodaeth.

Problemau wrth newid cyflenwr
Mae'n bosib na fydd newid cyflenwr yn opsiwn i bawb, yn enwedig os oes gennych ddyledion tanwydd cyfredol. Os ydach mewn dyled i'ch cyflenwr gwreiddiol am lai na 28 diwrnod, gallwch barhau i newid cyflenwr fel rheol. Fodd bynnag, bydd y ddyled yn cael ei throsglwyddo at y cyflenwr newydd.

Os oes gennych fesurydd cyn-daliad a dyledion o dros £100 ni fydd modd ichi newid cyflenwr. Os oes gennych ddyledion o dan £100 dylech fedru newid cyflenwr o hyd ac fe gaiff y ddyled ei throsglwyddo. Os ydach yn cael unrhyw broblemau wrth newid cyflenwr neu yr hoffech ragor o gyngor, ffoniwch Energywatch.

Newid Cyflenwyr yng Ngogledd Iwerddon
Mae cyfnewid cyflenwyr yng Ngogledd Iwerddon yn wahanol gan nad oes cystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid trydan a nwy. Gall cwsmeriaid trydan cartref newid cyflenwr o Dachwedd 1af, cyn belled â bod cyflewnwyr gwahanol yn rhan o'r farchnad. Mae dau gyflenwr nwy mewn dwy ardal wahanol.

Mae'r ardal a gyflenwir gan Phoenix Supply ar agor i gystadleuaeth ar gyfer cyflenwyr cartref er ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr arweiniad, does dim cyflenwr amgen wedi ymddangos yn y farchnad.
Dydi'r ardal a gyflewnir gan Firmus Energy ddim ar agor i gyflenwyr eraill ar hyn o bryd gan fod eu trwydded yn golygu mai nhw ydi'r unig gyflenwr o nwy cartref yn eu hardal am wyth mlynedd.

Cynlluniau ar gyfer grwpiau anabl, oedrannus a bregus

Concentreiddiwr Ocsigen
Os gewch chi neu rywun yn eich teulu bresgripsiwn am goncentreiddiwr ocsigen, bydd eich doctor yn rhoi gwybod i'r cwmni sy'n darparu nhw ar gyfer y GIC yn eich ardal. Mae concentreiddwyr Ocsigen yn defnyddio tua gwerth dwy geiniog yr awr a'r GIC sy'n ateb y costau hyn. Bydd y cwmni cyflenwi yn trefnu ad-dalu'r costau hyn.

Cysylltwch â'r **Gronfa Ysgafaint Brydeinig** am fwy o fanylion:
73-75 Goswell Road,
Llundain EC1V 7ER
Llinell Gymorth: 08458 50 50 20
Ffacs 020 7688 5556
Gwefan: http://www.lunguk.org

Cofrestr Blaenoriaethu Gwasanaeth(DU)
Mae cyflenwyr nwy a thrydan yn gweithredu cynllun o'r enw Cofrestr Blaenoriaethu Gwasanaeth. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn, mae'n rhaid eich bod yn ateb un o'r meini prawf isod:

- o oed pensiwn; neu
- fod gennych anabledd; neu
- afiechyd tymor hir; neu
- amhariad gweledol neu glywedol.

Os ydach chi'n gymwys ar gyfer y cynllun , mae gennych hawl i dderbyn ystod o wasanaethau am ddim gan eich cyflenwr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynllun gwarchod cyfrinair ble cytunir ar gyfrinair unigryw i'w ddefnyddio gan y cyflenwr ynni wrth ymweld â'ch cartref;
- symud mesuryddion am ddim os ydi'n anodd ichi ddarllen neu gyrraedd eich mesurydd;
- darllen y mesurydd pob chwarter os nad oes unrhyw un yn eich cartref yn gallu darllen eich mesurydd nwy neu drydan;
- gwiriad diogelwch nwy am ddim os ydi'r holl oedolion yn y cartref yn ateb y meini prawf ar gyfer y Gofrestr Blaenoriaethu Gwasanaeth;
- rheoleiddwyr ac addaswyr arbennig ar gyfer eich sustem wresogi;
- rhybudd rhagblaen ynghylch amhariad i'r cyflenwad trydan os ydach chi'n dibynnu ar drydan ar gyfer offer meddygol hanfodol;
- adnoddau coginio a gwresogi amgen os ydi eich cyflenwad nwy wedi ei ddiffodd neu ei amharu am resymau diogelwch os ydi pob oedolyn yn eich cartref yn ateb y meini prawf ar gyfer y Gofrestr Blaenoriaethu Gwasanaeth.

Er mwyn cofrestru ar gyfer y Gofrestr Blaenoriaethu Gwasanaeth, cysylltwch â'ch cyflenwr neu Energywatch.

Dydi cyflenwyr tebyg yng **Ngogledd Iwerddon** ddim yn gweithredu'r Gofrestr Blaenoriaethu Gwasanaethau. Yn hytrach, maen nhw'n cynnig cynlluniau tebyg ar gyfer cwsmeriaid sy'n sâl iawn yn h•n, neu'n anabl.Cysylltwch â'ch cyflenwr am ragor o wybodaeth.

Mae gan Trydan Gogledd Iwerddon (NIE) "cynllun gofal hanfodol" ar gyfer cwsmeriaid sy'n dibynnu ar offer trydanol sy'n cynnal bywyd. Unwaith yr ydach chi wedi cofrestru, bydd NIE yn darparu mynediad uniongyrchol at wybodaeth yn ystod toriad yn y cyflenwad trydan.
Cysylltwch â NIE am ragor o wybodaeth. Ffôn: 08457 455 455

Llety rhent preifat

Mae rhai tenantiaid yn wynebu problemau efo'u landlord o ran eu cyflenwad tanwydd
Ymdrinir â rhai o'r materion allai godi isod. Fodd bynnag, cyn eich bod yn herio eich landlord am y rhain, mae'n bwysig holi am gyngor tai ynghylch eich hawliau i aros yn y llety rhent, gan y gallai unrhyw weithredu ar eich rhan, arwain o bosib at y landlord yn cychwyn ar y broses o'ch troi o'ch cartref. Gallai eich CAB neu asiantaeth cyngor tai lleol helpu fan hyn

Biliau tanwydd
Fel deilydd yr eiddo, chi sy'n gyfrifol am dalu'r biliau tanwydd a'r biliau d•r. Gallwch dderbyn a talu'r biliau hyn eich hun, neu mae'r tanwydd a'r d•r wedi'u cynnwys yn eich rhent a'r landlord sy'n talu'r biliau.Os mai'r landlord sy'n gyfrifol am eich tanwydd ac yntau heb dalu'r bil, gall y cyflenwad gael ei atal. Bydd eich cyflenwad d•r ddim yn cael ei atal os nad ydi eich landlord yn talu'r bil d•r. Holwch am gyngor arbenigol am yr hyn y dylech ei wneud os ydi hyn yn digwydd.

Ailwerthu nwy a thrydan
Os ydach chi'n talu eich landlord am nwy a thrydan, yna dylent dalu hyd at yr uchafswm pris wrth ei ailwerthu. Wedi'i osod gan Ofgem(Swydda'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan), dyma'r uchafswm y gall landlord ei godi am nwy a thrydan. Os ydi eich landlord yn codi mwy na'r uchafswm hwnnw fe allwch ei herio. Fodd bynnag, cyn herio'ch landlord, mae'n bwysig derbyn cyngor tai am eich hawliau i aros yn y llety rhent;

Gallwch dderbyn cyngor gan Energywatch ynghylch faint y gall eich landlord godi am danwydd.

Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd uchafswm pris o ran ailwerthu nwy a thrydan yn parhau.

Datgysylltiad
Ni ddylai eich landlord ddatgysylltu eich cyflenwad d•r na thanwydd er mwyn ad-ennill arian rhent sy'n ddyledus iddo. Dylai landlord ddim chwaith wneud hyn er mwyn ceisio'ch gorfodi i adael yr eiddo. Serch hynny, fe allech wynebu datgysylltiad os nad ydi eich landlord wedi talu'r biliau tanwydd(os mai nhw sy'n gyfrifol am wneud hynny). Eto, holwch am gyngor arbenigol ynghylch beth y gallwch ei wneud os ydi hyn yn digwydd ichi.

Diogelu teclynnau
Y landlord sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw declynnau trydanol a ddarperir yn yr eiddo yn ddiogel. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw osodiadau nwy yn ddiogel. Mae'n rhaid i bob osodiad nwy gael gwiriad diogelwch o leiaf unwaith pob 12 mis. Cyfrifoldeb y landlord ydi trefnu a thalu am unrhyw wiriadau ac unrhyw waith sydd angen ei wneud

Materion diogelwch

Nwy yn Gollwng
Os ydach chi'n arogli nwy neu'n amau bod carbon monocsid yn gollwng, yn profi problemau pwysau nwy neu bod tanchwa nwy wedi digwydd, ffoniwch: 0800 111 999
Os ydach chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon: 0800 002 001.
Y cwmnïau dosbarthu nwy sy'n gyfrifol am ddelio gyda nwy yn gollwng ac argyfyngau yn eu hardal.

Gwiriad diogelwch nwy am ddim
Mae gennych hawl i gael gwiriad nwy blynyddol am ddim os ydi'r holl oedolion yn eich eiddo yn ateb y meini prawf ar gyfer y Gofrestr Blaenoriaethu Gwasanaethau.

Gosod a thrwsio teclynnau
Os yd teclyn nwy angen ei osod neu ei drwsio, bydd rhaid i hynny ddigwydd dan ofal peiriannydd cofrestredig gyda CORGI. Mae gan llinell gymorth CORGI fanylion am beiriannwyr cofrestredig ar: 0800 915 0485

Carbon Monocsid
Mae Carbon Monocsid yn codi o declynnau nwy, gwresogyddion paraffin, poptau tanwydd llawn, boileri a gwresogyddion ystafell os eu bod yn wallus neu nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol. Gall hefyd ddod i'r cartref drwy ffliw sy'n cael ei rannu (pibellau awyru) a simneau.

Os ydach chi'n amau bod teclyn yn gollwng carbon monocsid, diffoddwch hwnnw'n syth, agorwch yr holl ddrysau a ffenestri a galwch am gymorth gan beiriannydd cofrestredig gyda CORGI.
Dylech hefyd holi am gyngor meddygol.

Sefydliadau Defnyddiol

Central Heating Programme (Yr Alban)
Ffôn: 0800 316 1653 (Scottish Gas)
Gwefan: http://tinyurl.com/2ezofw

Cyngor ar Bopeth
Am fanylion am eich swyddfa leol ffoniwch: 020 7833 2181
Gwefan: http://www.citizensadvice.org.uk

Coal Advisory Service Northern Ireland
Ffôn: 028 9075 1002

Consumer Council for Northern Ireland
Ffôn: 0845 601 6022
Gwefan: http://www.consumercouncil.org.uk

Consumerline (Northern Ireland)
Ffôn: 0845 600 6262
Gwefan: http://www.consumerline.org

CORGI
Ffôn: 0800 915 0485
Gwefan: www.trustcorgi.com

Caolfannau Cynghori ar Effeithlondeb Ynni (EEAC)
Yn darparu cyngor amhleidiol yn rhad ac am ddim ar ystod o faterion yn ymwneud ag arbed ynni gan gynnwys arbed ynni yn y cartref a lleihau biliau tanwydd. Am fanylion am eich EEAC agosaf, cysylltwch a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Ffôn: 0800 512 012
Gwefan: http://www.est.org.uk
Yn annog defnydd cynaladwy o ynni a thorri gollyngiadau carbon diocsid. Mae ganddynt manylion cyswllt ar gyfer Canolfannau Cynghori Effeithlondeb Ynni.

Energy Watch
Ffôn: 08459 06 07 08
Gwefan: http://www.energywatch.org.uk
Y corff arolygu nwy a thrydan annibynnol. Yn anelu i warchod buddiannau holl gwsmeriaid nwy a thrydan.

Llinell Gymorth Diogelwch Nwy
Ffôn: 0800 300 363

Gweithgor Iechyd a Diogelwch
Ffôn: 0845 345 0055
Gwefan: http://www.hse.gov.uk

Cynllun Effeithlondeb Ynni Cartref (Cymru)
Ffôn: 0800 316 2815
Gwefan: http://www.heeswales.co.uk

Llinell Gymorth Gwresogi'r Cartref
Ffôn: 0800 33 66 99
Gwefan: http://www.homeheathelpline.org
Cyngor ymarferol ar gyfer unrhyw un sy'n bryderus ynghylch talu eu biliau gwresogi a chadw'n gynnes yn y gaeaf.

Llinell Gymorth Dyledion Cenedlaethol
Ffôn: 0808 808 4000
Llu-Gwe 9.00-9.00; Sad 9.30-1.00
Llinell gymorth ar gyfer pobl efo problemau dyledion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Ofgem
Gwefan: http://www.ofgem.gov.uk
Gall Ofgem ddim delio'n uniongyrchol efo cwynion neu ymholiadau gan gwsmeriaid. Energywatch sy'n gwneud hyn

Warm Deal (Yr Alban)
Ffôn: 0800 316 6009

Warm Front Scheme (Lloegr)
Ffôn: 0800 316 2805
Gwefan: http://www.warmfront.co.uk

Warm Homes Scheme (Gogledd Iwerddon)
Ffôn: 0800 181 667
Gwefan: http://tinyurl.com/2nu963

Warm Zones
Gwefan: http://www.warmzones.co.uk

Dim ond mewn rhai mannau. Yn anelu i leihau tlodi tanwydd drwy ddynodi cartrefi mewn angen. Maent yn helpu gyda gosod insiwleiddio thermal, arbed rhag drafftiau a gwresogi er mwyn gwneud y cartref yn fwy cysurus. Mae'r corff hefyd yn cynghori ynghylch effeithlondeb ynni a hawliau budd-daliadau er mwyn lleihau'r swm a werir ar ynni a gwneud y mwyaf o incwm y cartref.

Ysgrifennwyd gan Philomena Murphy and Penny Roper

Llyfrynnau gwybodaeth eraill sydd ar gael

Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sydd wedi'i chreu ar gyfer rhieni a grwpiau sydd ynghlwm wrth ofalu am blant anabl. Mae rhestr lawn o gyhoeddiadau Cyswllt Teulu ar gael neu fe ellid ei lawrlwytho o'n gwefan www.cafamily.org.uk

- Pryderu am eich plentyn? (DU)
- Deall ymddygiad eich plentyn (DU)
- Anghenion Addysgol Arbennig (Lloegr)
- Arweiniad i Gredydau Treth (DU)
- Gweithio (DU)
- Gwasanaethau ar gyfer plant anabl yng Nghymru a Lloegr(Cymru a Lloegr)

Cysylltu â Ni

www.cafamily.org.uk

www.makingcontact.org

Prif Swyddfa Cyswllt Teulu:
209-21 City Road, Llundain EC1V 1JN
Ffôn **020 76 08 8700**
Ffacs **020 76 08 8701**
Email **info@cafamily.org.uk**
Gwefan **www.cafamily.org.uk**

Llinell gymorth am ddim ar gyfer rhieni a theuluoedd
0808 808 3555
Ar agor Ll–Gwe, 10.00–4.00;
Llun, 5.30–7.30
Mynediad at 100 o ieithoedd a mwy t
Ffôn testun
0808 808 3556

Swyddfa Gofrestredig: 209-211 City Road,
Llundain EC1V 1JN
Rhif Elusen Gofrestredig: 284912
Elusen Gofrestredig yr Alban : SCO39169
Cwmni wedi'i sicrhau drwy warant
Wedi'I gofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif. 1633333

Rhif TAW cofrestedig. GB 749 3846 82

® Mae Cyswllt Teulu yn ddynodyn masnachol cofrestredig

Er cymryd gofal mawr wrth lunio a chyflwyno'r arweiniad hwn er mwyn sicrhau cywirdeb, ni all Cyswllt Teulu dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriadau neu bethau sydd wedii eu hepgor.